# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 1 Chwefror 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

## Agenda
(43)v2

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)**

Gweld y cwestiynau

**4. Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Cartrefi mewn Parciau (Peter Black) (60 munud)**

**NDM4879 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Peter Black gyflwyno Bil er mwyn gweithredu'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ar 13 Hydref 2011 o dan Reol Sefydlog 26.90.

Gellir gweld y wybodaeth cyn y balot drwy fynd i:

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-legislation/bill_ballots/bill_010.htm

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM4905 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y bydd adnoddau digonol ar gael ym mhob adran Damweiniau ac Achosion Brys, ac na fydd yr un ohonynt yn cael ei hisraddio na'i chau yn ystod gweddill y Pedwerydd Cynulliad.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

*[os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu "y bydd adnoddau digonol ar gael ym mhob adran Damweiniau ac Achosion Brys, ac na fydd yr un ohonynt yn cael ei hisraddio na'i chau" a rhoi yn ei le "bod darpariaeth adrannau Damweiniau ac Achosion Brys y Byrddau Iechyd Lleol yn ateb y gofyn clinigol ac yn cwrdd ag anghenion y boblogaeth"

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ar ôl 'Pedwerydd Cynulliad' rhoi 'oni bai fod rheswm clinigol cadarn a di-gwestiwn dros wneud hynny'

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r rhan allweddol mae unedau mân anafiadau yn ei chwarae o ran lleihau'r pwysau ar adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod mai dim ond â staff priodol y gall adrannau Damweiniau ac Achosion Brys weithredu, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn gwneud popeth yn ei gallu i recriwtio a chadw staff nyrsio a chlinigol Damweiniau ac Achosion Brys.

**6. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM4906 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno mesurau er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r stigma sydd ynghlwm wrth y rheini sy'n ddibynnol ar y system fudd-daliadau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Dileu 'y rheini sy'n ddibynnol ar y system fudd-daliadau' a rhoi yn ei le 'y bobl hynny sy'n cael cymorth lles'.

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd y Cynnig:

'ac yn credu mai un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o leihau'r stigma hwn yw drwy helpu pobl yn ôl i waith'.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod bod heb waith a dibyniaeth ar fudd-daliadau yn creu rhwystrau mwy byth i'r rheini sy'n dymuno dianc o fywyd ar fudd-daliadau a chael gwaith.

**Gwelliant 4 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cytuno y bydd agenda diwygio lles Llywodraeth y DU yn cynyddu'r stigma i'r rhai sy'n ddibynnol ar y system fudd-daliadau, a chan mai mater sydd heb ei ddatganoli yw hwn, na ddylai Llywodraeth Cymru ysgwyddo'r baich ariannol fydd ynghlwm wrth leddfu'r sefyllfa.

**Cyfnod Pleidleisio**

**7. Dadl fer a ohiriwyd ers 25 Ionawr 2012 (30 munud)**

**NDM4898 Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

All Cymru Dalu ei Ffordd ei Hun?

**8. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM4904 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd):**

Treth ar Werth Tir yng Nghymru?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mawrth, 7 Chwefror 2012